

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

**Minutes of the meeting of Pwyllgor safonau held
at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr USK on Dydd Llun, 9fed Hydref, 2023 at
10.00 am**

PRESENNOL: Cynghorwyr Sir: Fay Bromfield a Frances Taylor

Aelodau Annibynnol: Richard Stow (Cadeirydd), Peter Easy, Rhian Williams-Flew

Aelod o'r Pwyllgor Cymunedol: Michael John

SWYDDOGION PRESENNOL:

Amy Gullick
Joanne Chase
Ben Davies

Swyddog Democratiaeth Leol
Cyfreithiwr a Dirprwy Swyddog Monitro
Cyfreithiwr a Dirprwy Swyddog Monitro

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y Cynghorydd Sir Catherine Fookes a Marion Gibson

2. Datganiadau o Fuddiant

Datganodd y Cynghorydd Sir fuddiant personol, allai greu rhagfarn yn unol â Chod Ymddygiad Aelodau o ran eitem 14 ar yr agenda.

3. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2023 fel cofnod cywir.

Wrth wneud hynny, nodwyd bod Cyfansoddiad y Pwyllgor a roddwyd ar dudalen flaen yr agenda yn anghywir ac y dylid ei ddiwygio i ddarllen.

- M. John (Cynrychiolydd Cymunedol)

Rhoddodd y Cadeirydd adborth am y camau a godwyd:

- Eitem 5, Polisi Rhoddion a Lletygarwch: Cadarnhaodd y cadeirydd y byddai'r system reoli dysgu a'r hyfforddiant gwrth-llwgrwobrwyo a llygredd yn cael eu trafod dan eitem agenda 9, hyfforddiant cod ymddygiad.
- Fe wnaethom nodi bod y Dirprwy Swyddog Monitro wedi ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar adroddiad Richard Penn, a gyflwynwyd erbyn 23 Mehefin.
- Roedd diwygiadau i Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau wedi cael eu gwneud ac aeth yr adroddiad terfynol i'r Cyngor Llawn ar 21 Medi.

https://www.youtube.com/live/DJc0_otfvbY?feature=shared&t=62

4. Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru 2022-23

Esboniodd y Cadeirydd, yn dilyn y cyfarfod diwethaf, ei fod wedi anfon y Cyfarwyddyd Cosbau Panel Dyfarnu Cymru presennol ar 17 Mehefin, gan fod y pwyllgor yn bwriadu mynd i'r

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor safonau held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr USK on Dydd Llun, 9fed Hydref, 2023 at 10.00 am

gwrandawiadau. Ond, ni lwyddodd aelodau'r pwyllgor i fod yn bresennol, gan nad oedd y pedwar gwrandawriad yr ystyriwyd mynd iddynt ar agor i'r cyhoedd na'r cyfryngau. Nododd yr aelodau bwysigrwydd cadw'r ddogfen fel canllaw i gyfeirio ato i gyd fynd â chyfarwyddyd Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon.

Esboniodd y Cadeirydd bod yr adroddiadau am benderfyniadau ar gyfer y gwrandawiadau 'pennu papur' i gyd ar-lein, petai aelodau yn dymuno eu gweld.

Nododd y pwyllgor bod yr ymgynghoriad ar uno'r 7 tribiwnlys wedi dechrau ar 19 Mehefin a chloi ar 2 Medi.

Yn ystod y drafodaeth, fe wnaethom sylwi bod y farnwriaeth yn hyrwyddo cyfiawnder agored a bod ymgais i Dribiwnlysoedd a'r Llys Amddiffyn gael ceisiadau am gyfiawnder agored sy'n cael eu hystyried cyn i'r achos gael ei glywed.

Cytunodd y Cadeirydd y byddai'n olrhain y mater, gan fod y pwyllgor yn cynnwys cyfiawnder agored yn eu hymateb i'r ymgynghoriad. Yn ychwanegol, byddai cyswllt a pha mor ymatebol oeddynt i e-bost yn cael eu codi fel pryderon.

Rhoddodd y Cadeirydd fanylion i'r pwyllgor am yr Adroddiad Blynyddol ac yn ystod y drafodaeth codwyd y pwyntiau canlynol:

- Fe wnaethom nodi'r nifer o gyfeiriadau ac apeliadau a dderbyniwyd, oedd ar gyfartaledd yn 3 neu 4 y flwyddyn, a theimlid bod hynny'n nifer gymharol fach.
- Y prif gamwedd oedd anfri, paragraff 6(1)(a) y cod.
- 4 tribiwnlys achos yn 2022/23, ac o'r rhain roedd 3 'ar y papurau' ac un ar-lein.

https://www.youtube.com/live/DJc0_otfvbY?feature=shared&t=249

5. Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2022-23

Rhoddodd y Cadeirydd drosolwg o ganfyddiadau allweddol Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon ac yn ystod y drafodaeth codwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd cwynion Cod Ymddygiad i lawr 4% o'r flwyddyn flaenorol.
- Yn ystod y flwyddyn, caewyd 280 o achosion: bron ddim newid o'r flwyddyn flaenorol.
- Yn y flwyddyn bresennol, ymchwiliwyd i 35, cyfeiriwyd 12, gydag 8 yn mynd i Bwyllgorau Safonau ac aeth 4 i'r Panel Dyfarnu. Felly, allan o'r 280, ymchwiliwyd i tua 1 o bob 8 a chyfeiriwyd 1 o bob 3 o'r rhai yr ymchwiliwyd iddynt.
- Mewn cymhariaeth ag ystadegau'r flwyddyn ddiwethaf, mae'n ymddangos bod hon yn flwyddyn well o ran ymddygiad.
- Mynegodd y Cadeirydd bryder bod manylion y cwynion cod ymddygiad yn seiliedig ar egwyddorion Nolan ac y byddai'n fwy defnyddiol defnyddio rhifau paragraff y cod, fel sy'n cael eu defnyddio gan y Panel Arfarnu.
- Roedd 61% o'r cwynion dilys, am 'Hyrwyddo Cydraddoldeb a Pharch'. Teimlid bod hwn yn gategori rhy fawr i ddeall difrifoldeb y sefyllfa.
- Teimlid hefyd y dylai Bwlio ac Aflonyddu gael ei gategori ei hun, o ystyried difrifoldeb posibl yr achosion.
- Fe wnaethom nodi, o fewn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol mai'r targed o ran nifer yr achosion i'w cau mewn 12 mis oedd 90% ond dim ond 66/67% o achosion a gaewyd mewn gwirionedd.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor safonau held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr USK on Dydd Llun, 9fed Hydref, 2023 at 10.00 am

Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus, gan ofyn os gellir defnyddio paragraffau'r cod ac os gall y pwnc cwyn 'Hyrwyddo Cydraddoldeb a Pharch' gael ei dorri i lawr yn categorïau gwahanol, gan fod 61% yn categori rhy fawr i ddeall y digwyddiadau.

https://www.youtube.com/live/DJc0_otfvbY?feature=shared&t=1388

6. Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru at Gyngor Sir Fynwy dyddiedig 17eg Awst 2023

Rhoddodd y Cadeirydd drosolwg o Lythyr Blynyddol yr Ombwdsmon at Gyngor Sir Fynwy. Fe wnaethom nodi bod y Swyddog Monitro blaenorol wedi ysgrifennu at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus i ofyn am gael gweld y llythyr yn gynharach, er mwyn galluogi'r Pwyllgor i gwblhau ei adroddiad blynyddol gan fod y llythyr yn cynnwys y sgoriau cwynion ar gyfer y Cyngor, ond ni dderbyniwyd y llythyr mewn pryd.

Fe wnaethom nodi mai dim ond 1 gŵyn oedd am aelod o Gyngor Sir Fynwy, ac ni chafodd ei pharhau. Ymhlith y Cynghorau Tref a Chymuned dim ond 5 a dderbyniwyd ac roedd yr Ombwdsmon wedi penderfynu peidio ag ymchwilio iddynt.

Esboniwyd y dylai'r llythyr hefyd fynd i'r Cabinet a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er gwybodaeth.

https://www.youtube.com/live/DJc0_otfvbY?feature=shared&t=1895

7. Data Cwynion Ymddygiad Cyngor Sir Fynwy 2015 - 2023

Rhoddodd y Cadeirydd dabl o'r cwynion ymddygiad am Aelodau Cyngor Sir Fynwy i aelodau'r pwyllgor, y penderfynwyd arnynt rhwng 2015 a 2023, i gyd fynd â'r llythyr blynyddol.

Nodwyd, rhwng 2015 a 2023, nad oedd unrhyw gwynion wedi eu cyfeirio i'r Pwyllgor Safonau a dim ond un oedd wedi ei chyfeirio i'r Panel Dyfarnu yn 2017-18.

https://www.youtube.com/live/DJc0_otfvbY?feature=shared&t=1997

8. Proses Cwynion Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Cyflwynwyd crynodeb o Broses Gwynion Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i'r pwyllgor. Atgoffwyd y pwyllgor am drafodaethau blaenorol ym mis Chwefror am y newidiadau arfaethedig i broses Gwynion y Cod Ymddygiad a nodwyd bod barn yr aelodau am y newidiadau yn gymysg ar y pryd.

Cadarnhaodd y Cadeirydd bod y ddogfen gryno wedi ei rhoi ynghlwm wrth yr agenda er gwybodaeth yn unig.

https://www.youtube.com/live/DJc0_otfvbY?feature=shared&t=2141

9. Hyfforddiant Cod Ymddygiad

Hysbyswyd y Pwyllgor na fu unrhyw geisiadau am Hyfforddiant Cod Ymddygiad ers y cyfarfod diwethaf.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor safonau held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr USK on Dydd Llun, 9fed Hydref, 2023 at 10.00 am

Clywsom bod aelodau'r Pwyllgor Cynllunio wedi cael rhagor o hyfforddiant, a allai fod o ganlyniad i gais blaenorol a wnaed yn y Pwyllgor Safonau.

Cawsom wybod bod Cod Ymddygiad ar wahân i'r Pwyllgor Cynllunio i God Ymddygiad y Cyngor yn y Cyfansoddiad. Byddai'r Cadeirydd yn codi hyn gyda'r Swyddog Monitro newydd, gan fod cwestiynau am ei berchnogaeth, anghenion hyfforddiant a pham nad yw wedi ei gynnwys yn y Cyfansoddiad.

Awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio dderbyn hyfforddiant i'w hatgoffa o'r Cod Ymddygiad.

Codwyd y cwestiwn a yw'r holl aelodau cyfetholedig wedi derbyn hyfforddiant ac fe wnaethom nodi y byddai'n ddefnyddiol i gofnodion hyfforddiant gael eu cynnwys yn y system reoli dysgu newydd oedd yn cael ei datblygu gan Gwasanaethau Democrataidd.

Cytunwyd y byddai'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yn archwilio a oedd unrhyw aelodau cyfetholedig ar unrhyw Bwyllgor arall tu hwnt i'r Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Gofynnodd y Cadeirydd hefyd am i'r Polisi Rhoddion a Lletygarwch gael ei gynnwys yn yr hyfforddiant Gwrth Lwgrwobrwyo a Llygredd a gwybodaeth am bwy sy'n darparu'r hyfforddiant.

Cytunodd y Cadeirydd i drafod y gofyn am hyfforddiant cod ymddygiad dilynol i aelodau Cyngor Sir Fynwy (ar sail sefyllfaoedd/enghreifftiau) gyda'r Swyddog Monitro newydd.

https://www.youtube.com/live/DJc0_otfvbY?feature=shared&t=2242

Gadawodd y Cynghorydd Frances Taylor y cyfarfod ar ddiwedd yr eitem hon.

10. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2022-23 - a gyflwynwyd yn y Cyngor ar 21ain Medi 2023

Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor bod Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2022/23 wedi ei roi ger bron y Cyngor ar 21 Medi 2023 ac ni chodwyd unrhyw gwestiynau yn y cyfarfod.

https://www.youtube.com/live/DJc0_otfvbY?feature=shared&t=3688

11. Canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer A62 ac A63 LGE21 - cyhoeddwyd ar 15fed Mehefin 2023

Fe wnaethom nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei gyfarwyddyd ar y ddau ddyletswydd newydd dan adran 62 a 63 ar 15 Mehefin 2023. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau ym Mawrth 2022, edrychodd yr aelodau ar y cyfarwyddyd drafft a theimlent nad oedd angen iddynt roi ymateb i'r ymgynghoriad. Esboniwyd bod y dyletswyddau newydd wedi dod i rym ym Mai 2022 ac fe wnaeth y Swyddog Monitro hysbysu'r holl Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol am y dyletswyddau newydd a roddwyd iddynt a nodi'r dyletswyddau newydd sydd gan y Pwyllgor Safonau.

Cyflwynwyd gwybodaeth berthnasol i'r pwyllgor i ni, oedd yn Rhan 2 y ddogfen, yn adrannau 4-7. Rhoddodd y Cadeirydd drosolwg o'r newidiadau oedd wedi eu cynnwys ers y ddogfen ddrafft. Wrth wneud hynny, nodwyd y pwyntiau canlynol:

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor safonau held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr USK on Dydd Llun, 9fed Hydref, 2023 at 10.00 am

- Paragraff 4.29 - y gofyn i Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol gadw cofnodion o gamau y maent wedi eu cymryd.
- Paragraff 4.36 – Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol i gyfarfod y Pwyllgor Safonau am nifer o eitemau a nodir.
- Mynegodd yr aelodau bryderon am natur gyfarwyddol y dyletswyddau newydd a roddwyd i Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol a'r Pwyllgor Safonau.
- Codwyd nifer o gwestiynau am weithredu'r cyfrifoldebau newydd y byddai angen eu codi gyda'r Swyddog Monitro newydd.
- Nodwyd gennym bod dyletswydd yn awr ar y Pwyllgor Safonau i sefydlu'r trothwy o ran beth y maent yn fodlon i'r Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol gydymffurfio ag e.
- Teimlai'r aelodau bod newid sylweddol yn amodau'r pwyllgor o oruchwylio a rhoi cyfarwyddyd, i gyfraniad gweithredol. Nododd yr aelodau bod y cyfarwyddyd yn datgan y dylent fod yn rhoi cyngor am gyfarwyddyd statudol, ond teimlai'r pwyllgor, fel aelodau annibynnol, y dylent gadw hyd braich oddi wrth faterion gweithredol.
- Paragraff 5.7 – Dylai'r Pwyllgor Safonau chwarae rhan ragweithiol wrth hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ran ymddygiad mewn Cyngorau Tref a Chymuned. Nodwyd bod Un Llais Cymru yn rhoi cefnogaeth a hyfforddiant i'r cyngorau cymuned.
- Paragraff 5.10 – Y Pwyllgor Safonau i adolygu'r dull a gymerir o ran rhoddion a lletygarwch yn gyson.
- Paragraff 6.4 – Dylai'r Pwyllgor Safonau gyfarfod arweinwyr grwpiau ar ddechrau pob blwyddyn gyngor.
- Codwyd cwestiwn am gofnodion hyfforddiant Cyngorau Tref a Chymuned a chytunwyd y byddid yn ceisio gwybodaeth ar beth oedd darpariaethau'r cynllun hyfforddi.
- Codwyd cwestiwn arall a fyddai gan Swyddogion Cynllunio ddiddordeb mewn rhoi sesiwn hyfforddi fyddai'n agored i'r holl Gynghorau Tref a Chymuned.
- Nododd yr aelodau na all y Pwyllgor Safonau wneud unrhyw hyfforddiant yn orfodol, fel y nodir ym mharagraff 7.7.
- Paragraff 7.8 – nodwyd y gofyn i Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau gael ei rannu gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Chyngorau Tref a Chymuned.

Mynegodd yr aelodau bryderon gwirioneddol am y dyletswyddau newydd, sydd mewn gwirionedd, yn newid swyddogaeth y Pwyllgor Safonau heb gyfiawnhad nac esboniad am yr hyn y teimlid sydd o'i le â'r model presennol.

Cytunodd y Cadeirydd y byddai'n cysylltu ag Un Llais Cymru i weld a fyddent yn rhoi gwybodaeth am yr hyfforddiant a roddwyd i gynghorau tref a chymuned yn Sir Fynwy.

https://www.youtube.com/live/DJc0_otfvbY?feature=shared&t=3816

12. Dyddiadau Cyfarfodydd 2024-25:

Nodwyd y dyddiadau cyfarfod amodol ar gyfer 2024–25.

13. Dyddiad y cyfarfod nesaf - 26ain Chwefror 2024

Nodwyd.

14. Hysbysiadau Penderfyniad yr Ombwdsmon

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

**Minutes of the meeting of Pwyllgor safonau held
at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr USK on Dydd Llun, 9fed Hydref, 2023 at
10.00 am**

Cytunwyd i ohirio'r eitem hyd nes cyfarfod y Pwyllgor Safonau yn y dyfodol pan fydd y Swyddog Monitro newydd yn ei swydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.50 am